Cardiff and Vale University Health Board
**Unpaid Carers Information Service**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Di-dâ**

# Trafnidiaeth

## Cynllun Bathodyn Glas

Mae'r cynllun Bathodyn Glas yn helpu'r rhai hynny sy'n anabl i barcio'n agosach at eu cyrchfan. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â llinell gymorth Bathodyn Glas Cyngor Caerdydd ar 029 2087 3209 neu Cyswllt Un Fro ar 01446 700111. Mae gwybodaeth ar gael ar wefannau'r cyngor.

## Apwyntiadau Cleifion Allanol

Gellir archebu ambiwlans i fynychu apwyntiad claf allanol un ai drwy eich meddyg teulu neu drwy'r Ganolfan Drafnidiaeth Nad Ydynt ar Frys. Wrth archebu trafnidiaeth am y tro cyntaf, ffoniwch 0800 123 2303 rhwng 8.30am a 6pm yn ystod yr wythnos waith.

Bydd y person sydd angen cludiant angen cyrraedd meini prawf penodol, er enghraifft:

- angen gwely cludo ar gyfer y daith
- angen cymorth parhaus i gerdded
- derbyn dialysis neu driniaeth canser

Caiff hawl ei sefydlu pan fyddwch yn cysylltu â'r ganolfan archebu cludiant. Os nad ydych yn gymwys, caiff gwybodaeth am ddarparwyr cludiant eraill ei chynnig.

## Trafnidiaeth Gymunedol

- **Gwasanaeth Cludiant Brys Gwirfoddol (VEST)** – gwasanaeth bws arbennig i henoed, yr anabl a'r rhai sy'n gaeth i'w tai o'u cartrefi i unrhyw le yng Nghaerdydd gan gynnwys cludiant i apwyntiadau gyda'r meddyg teulu. Maen nhw hefyd yn rhedeg gwasanaeth deialu bws sy'n mynd â phobl o'u cartrefi i Ganol Dinas Caerdydd am gost bychan. Ffoniwch 029 20490335.

Diweddaru 2023

- **Cludiant Cymunedol Dwyrain y Fro** – cludiant cymunedol i'r rheiny sy'n byw yn nwyrain Bro Morgannwg sy'n ei chael yn anodd cyrchu gwasanaethau trafnidiaeth arferol. Ffoniwch 029 2049 5138.
- **Greenlinks** – Cludiant i bobl yn byw yn y Fro wledig. Rhaid cofrestru i gael bod yn aelod o'r cynllun a chadw lle i fynd ar daith 24 awr ymlaen llaw. Ffoniwch 0800 294 1113.
- **Dinas Powys Voluntary Concern** – yn cynnig cludiant cymunedol i'r henoed a rhai ag anableddau Ffoniwch 029 2051 3700.

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae Traveline Cymru yn cynnig gwybodaeth wedi ei ddiweddaru am amserlenni bysiau a threnau, yn eich helpu i gynllunio'ch taith ac yn rhoi cyngor ar y sefyllfa draffig bresennol. Cyswllt ar 0800 464 00 00 neu ewch i https://www.outdoorcardiff.com/cy/

Mae pobl sy'n 60 oed ac yn hŷn a phobl anabl yn derbyn teithio am ddim ar wasanaethau bysiau lleol yng Nghymru. Gall pobl anabl sydd angen cymorth i deithio gymryd cydymaith ar y daith gyda nhw am ddim. Cysylltwch â Chyngor y Fro ar 01446 700111 neu Gyngor Caerdydd ar 029 2087 2087 am fwy o wybodaeth. Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar wefan y cyngor.

## Parcio a theithio am ddim

Ysbyty Athrofaol Cymru: Mae maes parcio a theithio am ddim o Bentwyn i Ysbyty Athrofaol Cymru - cod post CF23 8HH. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Gwener, gyda bysiau bob 20 munud ac mae'r daith i Ysbyty Athrofaol Cymru tua 6 munud. Mae'r bws cyntaf yn gadael Pentwyn am 6.30am a'r bws olaf yn gadael Ysbyty Athrofaol Cymru am 9pm.

Mae'r amserlen lawn i'w chael ar www.cardiffbus.com.

## Motability

Mae'r cynllun Motability yn galluogi pobl anabl i gyfnewid eu lwfans symudedd i brydlesu car newydd, cadair olwyn neu sgwter â pheiriant. Ffoniwch 0300 456 4566 neu www.motability.co.uk i gael mwy o wybodaeth.

Cardiff and Vale University Health Board
**Unpaid Carers Information Service**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
**Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Di-dâl**

# Rydym yma i helpu



**Suzie Becquer-Moreno**
**Arweinydd Gofalwyr**



**Sarah Davies**
**Rheolwr Canolfan Wybodaeth a Chymorth**

Ffôn: 029 21845692

Ebost: pe.cav@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Patient Experience
Profiad y Claf